Dyddiad: 2 Gorffenaf 2003
Amser: 9.00 – 12.05
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

EITEM AGENDA 2 (Rhan B)

ADOLYGIAD POLISI: YSGRIFENNU CYFRWNG SAESNEG YNG NGHYMRU

CYFLWYNIAD
1. Mae'r papur hwn yn trafod amrediad, cylch gorchwyl a rhaglen waith yr adolygiad polisi ar "ysgrifennu cyfrwng Saesneg yng Nghymru".

CEFNDIR
2. Cynhaliodd y Pwyllgor Diwylliant blaenorol "astudiaeth gwmpasu" er mwyn ystyried a fyddai'n fuddiol cynnal adolygiad polisi ar ddiwylliant Eingl-Gymreig. Penderfynodd y Pwyllgor Diwylliant y dylid osgoi defnyddio'r term "Eingl-Gymreig" ac y dylai adolygiad o'r fath ganolbwyntio i ddechrau ar lyfrau ac ysgrifennu, ac ysgrifennu newydd yn arbennig, ond y gallai edrych ar ddrama cyfrwng Saesneg ac, o bosibl, y cyfryngau newydd yn ddiweddarach.

3. Ceir crynodeb o brif themâu astudiaeth gwmpasu'r Pwyllgor Diwylliant, a'r materion a ddeilliodd o'r astudiaeth, yn atodiad 1.

AMREDIAD
4. Cynigir y dylai adolygiad y Pwyllgor Diwylliant gwmpasu ysgrifennu cyfrwng Saesneg yng Nghymru - hynny yw llyfrau, barddoniaeth, dramâu a sgriptiau, a'r gefnogaeth a roddir i lenorion.

CYLCH GORCHWYL
5. Cylch gorchwyl arfaethedig yr adolygiad yw:

> Adolygu (i) cyfraniad llyfrau ac ysgrifennu cyfrwng Saesneg yng Nghymru at ddiwylliant Cymru; (ii) y dulliau o gefnogi llenorion yng Nghymru, gan gynnwys dramodwyr ac awduron sgriptiau; (iii) y dulliau cefnogi ar gyfer cynhyrchu a marchnata ysgrifennu newydd, gan gynnwys cefnogaeth y sector preifat; a [(iv) dulliau o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o lenyddiaeth a llenorion cyfrwng Saesneg yng Nghymru].

Y DULL O GYNNAL YR ADOLYGIAD
6. Cynigir y drefn ganlynol ar gyfer cynnal yr adolygiad:

- Ymgynghoriad ysgrifenedig ar y themâu allweddol (Haf 2003)
- Dadansoddiad o ganlyniadau'r broses ymgynghori (cyfarfod cyntaf tymor yr hydref)
- Sesiynau holi ar y prif themâu a fydd yn codi o'r broses ymgynghori (tymor yr hydref)

- Dadansoddiad o'r materion allweddol a'r argymhellion (Rhagfyr/Ionawr)
- Cyflwyno adroddiad i'r Cyfarfod Llawn (tymor y gwanwyn 2004).

7. Amgaeir blaenraglen waith ddrafft ar gyfer yr adolygiad yn atodiad 2. Bydd angen adolygu hon mewn ymateb i'r ymatebion a dderbynnir i'r ymgynghoriad ysgrifenedig.

8. Amgaeir papur ymgynghori drafft yn atodiad 3. Os bydd y Pwyllgor yn ei gymeradwyo, caiff ei gyhoeddi yn dilyn y cyfarfod, a'r dyddiad cau ar gyfer ymateb iddo fydd diwedd mis Awst. Bydd hynny'n caniatáu digon o amser i ddadansoddi'r canlyniadau cyn y cyfarfod cyntaf ym mis Medi.

CASGLIAD

9. Gwahoddir y Pwyllgor i gytuno a rhoi sylwadau ar:

i. Amrediad yr adolygiad (para 4)
ii. Cylch gorchwyl yr adolygiad (para 5)
iii. Y rhaglen waith ddrafft (atodiad 2)
iv. Y papur ymgynghori drafft (atodiad 3)

GWASANAETHAU'R PWYLLGORAU AC YMCHWIL YR AELODAU
MEHEFIN 2003

ATODIAD 1

YSGRIFENNU CYFRWNG SAESNEG YNG NGHYMRU

CRYNODEB O'R PRIF THEMÂU A'R SAFBWYNTIAU A DDEILLIODD O ASTUDIAETH GWMPASU'R PWYLLGOR BLAENOROL

Cyhoeddi

- Gwendid y sector cyhoeddi annibynnol yng Nghymru - nid ydynt yn gallu talu swm sylweddol o'r breindal o flaen llaw, anawsterau o ran dosbarthu llyfrau y tu allan i Gymru a diffyg adnoddau marchnata.
- Dylid rhoi pwysau ar siopau llyfrau cadwyn yng Nghymru i werthu a hyrwyddo nofelau ffuglennol a barddoniaeth cyfrwng Saesneg Cymreig ochr yn ochr â chyfrolau cyhoeddwyr mawr Llundain.

Cyllid

- Dylid ystyried effaith trosglwyddo'r cyfrifoldeb am lyfrau cyfrwng Saesneg Cymreig o Gyngor Celfyddydau Cymru i Gyngor Llyfrau Cymru - mae arian yn cael ei neilltuo ar gyfer llyfrau sydd o werth llenyddol nodedig ond mae yna alw am yr un faint o arian i gyhoeddi llyfrau ar gyfer y farchnad boblogaidd.
- Dylid adolygu'r ddarpariaeth grant yn drylwyr er mwyn gallu marchnata teitlau unigol yn effeithiol.
- Dylid ystyried codi gwerth gwobrau llyfrau a chreu gwobrau newydd. Byddai hyn yn codi bri gwobrau llenyddol Cymru ac yn rhoi cyfle i gyhoeddwyr ddal eu gafael ar dalent o Gymru.

Hyrwyddo

- Dylid canolbwyntio ar waith ysgrifennu a fydd yn datblygu Cymru'n wlad ddwyieithog, aml-ethnig ag iddi amrywiaeth o ddiwylliannau.
- Dylid ystyried materion fel faint o sylw a roddir i ysgrifennu Saesneg o Gymru ar y cyfryngau, ansawdd y sylw hwnnw, a sut y gellid rhoi sylw i'r maes hefyd drwy gylchgronau llenyddol.
- Byddai'n rhaid i adolygiad ystyried y cysylltiad rhwng cyhoeddi cylchgronau a llyfrau a sut y gall y naill elwa ar y llall h.y. hyrwyddo llyfrau.
- Dylid defnyddio'r Eisteddfod Genedlaethol fel ffordd werthfawr o godi proffil llenyddiaeth cyfrwng Saesneg Gymreig.
- Ar hyn o bryd dim ond un wasg yng Nghymru sy'n cyhoeddi dramâu cyfrwng Saesneg gan awduron o Gymru - mae angen mwy o arian craidd.

Addysg

- Mae angen rhoi mwy o sylw penodol i lyfrau o ddiddordeb i blant a phobl ifanc.
- Dylid adolygu'r ffordd y mae ACCAC yn mynd ati i ddewis gweithiau cyfrwng Saesneg am Gymru ar gyfer y Cwricwlwm yng Nghymru.
- Dylid annog CBAC i gynnig mwy o ddewis o ddramâu Cymreig yn eu cwricwlwm.

- Does dim digon o gyrsiau ysgrifennu cyfrwng Saesneg i israddedigion nac uwchraddedigion o Gymru. Dylai'r Pwyllgor drafod â phrifysgolion/HEFCW/y Bwrdd Gwybodau Celtaidd ynghylch sut y gallant ddiwallu anghenion yn well o ran y diwylliant cyfrwng Saesneg yng Nghymru.
- Nid oes modiwlau drama cyfrwng Saesneg llawn ar gael ar hyn o bryd i fyfyrwyr prifysgolion a cholegau yng Nghymru.

Dramodwyr

- Mae'n hanfodol ein bod yn datblygu craidd o ddramodwyr Cymreig er mwyn atal y llif actorion/rheolwyr llwyfan/gweinyddwyr ac ati sy'n ymadael â'r wlad.
- Mae sawl drama dda gan ddramodwyr o Gymru wedi'u hanwybyddu gan theatrau.
- Mae angen prosiectau i roi cyfle i athrawon a disgyblion gynnal gweithdai gyda rhai o ddramodwyr mwyaf talentog Cymru, ac i berfformio'u gweithiau.
- Nid oes unrhyw feirniaid brodorol o Gymru'n adolygu'r theatr yng Nghymru'n rheolaidd, sy'n golygu nad yw cwmnïau ac awduron yn cael yr adborth sydd ei angen arnynt.
- Nid yw strwythur y theatr yng Nghymru'n ffafrio gweithiau newydd. Mae angen adeilad ar Sgript Cymru i gynnal gweithdai, darlleniadau ac ar gyfer cynnal perfformiadau o waith sydd ar y gweill.
- Nid oes unrhyw leoliad penodol yng Nghymru sy'n unswydd ar gyfer awduron newydd.
- Rhwng 1999 a 2002 bu gostyngiad yng nghyllideb Cyngor y Celfyddydau i awduron newydd o un rhan o dri.
- Mae angen strategaeth gydlynol sy'n gosod Sgript Cymru fel y corff strategol, cenedlaethol sy'n gyfrifol am ysgrifennu newydd. Mae angen lleoliad penodol ar gyfer dangos perfformiadau cyntaf dramâu cyfoes, ac ame angen cefnogi gwaith dramodwyr mewn amrediad o gwmnïau a theatrau ledled Cymru.

MRCS
Mehefin 2003

ATODIAD 2

RHAGLEN WAITH TRI MIS AMLINELLOL AR GYFER TYMOR YR HYDREF 2003

TORIAD YR HAF - GWEITHGAREDDAU ANFFURFIOL A GWAITH PARATOADOL

Ysgrifennu cyfrwng Saesneg yng Nghymru

- Ymgynghoriad ysgrifenedig ar yr adolygiad polisi ar ysgrifennu cyfrwng Saesneg yng Nghymru (yn dod i ben ddiwedd mis Awst).

Adfywio Cymunedol – gwaith paratoadol

- Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a'r Gweinidog Diwylliant i gyflwyno memorandwm ar y cyd ar bolisïau a chynlluniau cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran y celfyddydau a chwaraeon ac adfywio cymunedol (erbyn diwedd mis Gorffennaf).

- [Penodi cynghorydd arbenigol neu grwp cyfeirio ar adfywio cymunedol a'r celfyddydau a chwaraeon, os bydd gofyn gwneud hynny (dechrau mis Medi)]

    - Ymweliadau/sesiynau briffio anffurfiol ar bolisïau a phrosiectau ym meysydd y celfyddydau a chwaraeon sy'n ymwneud ag adfywio cymunedol (dechrau/canol mis Medi).

CYFARFOD CYNTAF (Dydd Mercher 24 Medi – 9am-12pm)

1.	Sylwadau agoriadol	5 munud
2.	• Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ddiwylliant cyfrwng Saesneg Cymru. Cadarnhau rhaglen waith yr adolygiad polisi (tymor yr hydref). • Papur ymgynghori drafft ar adfywio cymunedol i'r pwyllgor gytuno arno.	25 munud
3.	Cynlluniau corfforaethol drafft y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad – adroddiadau gan rapporteurs a sylwadau i'r Gweinidog.	60 munud
	EGWYL	15 munud
4.	Craffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2004-05	30 munud
5.	Adroddiad y Gweinidog (gan gynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y strategaeth chwaraeon; canlyniadau'r adolygiad o'r amgylchedd hanesyddol; a'r atodlen flynyddol o'r is-ddeddfwriaeth arfaethedig)	45 munud
6.	Cofnodion y cyfarfod blaenorol	5 munud

- Lansio'r ymgynghoriad ysgrifenedig ar adfywio cymunedol (diwedd mis Medi).

AIL GYFARFOD (Dydd Mercher 13 Hydref – 9am-12pm)

1.	Sylwadau agoriadol	5 munud
2.	Adolygiad polisi: llyfrau ac ysgrifennu cyfrwng Saesneg yng Nghymru. • e.e. Cefnogaeth ar gyfer ysgrifenwyr cyfrwng Saesneg yng Nghymru – sesiwn gyda Chyngor Llyfrau Cymru; Sgript Cymru; Sgrin Cymru; BBC Cymru (teledu a radio). (50 munud) • e.e. Cyhoeddi a marchnata – ffactorau sy'n rhwystro cyhoeddi gwaith llenorion yng Nghymru; polisïau marchnata'r siopau llyfrau mawr; dyfarniadau a gwobrau; polisïau papurau newydd ar adolygu llyfrau. (1 awr)	1 awr 50 munud
3.	EGWYL	15 munud
4.	Adroddiad y Gweinidog (gan gynnwys adroddiadau cynnydd canol blwyddyn ar Iaith Pawb a Cymru Greadigol; ariannu'r Ardd Fotaneg Genedlaethol)	45 munud
5.	Cofnodion y cyfarfod blaenorol	5 munud

GWEITHGAREDDAU ANFFURFIOL

- Prynhawn dydd Iau 23 Hydref – sesiwn gwmpasu ar gyfer yr adolygiad polisi o gynhwysiant cymdeithasol a chwaraeon a'r celfyddydau e.e ymweld â phrosiectau chwaraeon neu brosiectau celfyddydol?

TRYDYDD CYFARFOD (Dydd Mercher 12 Tachwedd – 9am-12pm)

1.	Sylwadau agoriadol	5 munud
2.	Adolygiad polisi: Llyfrau ac ysgrifennu cyfrwng Saesneg yng Nghymru • e.e. llenyddiaeth cyfrwng Saesneg o Gymru mewn addysg •	1 awr 55 munud
	EGWYL	15 munud
3.	Adroddiad y Gweinidog (pynciau - i'w cadarnhau; e.e. hyrwyddo celfyddydau ac artistiaid Cymru dramor)	45 munud
4.	Cofnodion y cyfarfod blaenorol	5 munud

GWEITHGAREDDAU ANFFURFIOL

- Prynhawn dydd Iau 20 Tachwedd – sesiwn gwmpasu ar gyfer yr adolygiad polisi o gynhwysiant cymdeithasol a chwaraeon a'r celfyddydau - e.e. ymweliadau â phrosiectau cynhwysiant cymdeithasol?

- Yr ymgynghoriad ysgrifenedig ar adfywio cymunedol yn dod i ben (diwedd mis Tachwedd).

PEDWERYDD CYFARFOD (Dydd Mercher 3 Rhagfyr – 9am-12pm)

1.	Sylwadau agoriadol	5 munud
2.	Adolygiad polisi: llyfrau ac ysgrifennu cyfrwng Saesneg yng Nghymru. Crynodeb o'r prif faterion a ddaeth i'r amlwg yn y sesiynau casglu gwybodaeth. Trafod y pwyntiau pwysicaf y dylid eu cynnwys yn adroddiad y pwyllgor.	40 munud
3.	Cyfrifon a chofnodion blynyddol y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad – adroddiadau'r rapporteurs.	45 munud
	EGWYL	15 munud
4.	Adroddiad y Gweinidog (pynciau - i'w cadarnhau; e.e addasiadau o fewn y flwyddyn i gyllideb y Gronfa Ddiwylliant)	45 munud
5.	Cofnodion y cyfarfod blaenorol	5 munud

TYMOR Y GWANWYN 2004

CYFARFOD CYNTAF (Dydd Mercher 21 Ionawr 2004)

1.	Sylwadau agoriadol	5 munud
2.	Adolygiad Polisi: llyfrau ac ysgrifennu cyfrwng Saesneg yng Nghymru. Drafft cyntaf o adroddiad y pwyllgor.	60 munud
3.	Adolygiad polisi: adfywio cymunedol. Dadansoddiad o ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus. Cadarnhau'r rhaglen waith ar gyfer tymor y gwanwyn.	40 munud
4.	EGWYL	15 munud
5.	Adroddiad y Gweinidog (gan gynnwys llythyrau cylch gwaith y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad)	45 munud
6.		10 munud
7.	Cofnodion y cyfarfod blaenorol	5 munud

Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau
Mehefin 2003

ATODIAD 3

LLYTHYR YMGYNGHORI DRAFFT

Gorffennaf 2003

Annwyl

Y PWYLLGOR DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHWARAEON - ADOLYGIAD POLISI: YSGRIFENNU CYFRWNG SAESNEG YNG NGHYMRU

GWAHODDIAD I GYFRANNU

Bydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yn cynnal adolygiad polisi ar Ysgrifennu Cyfrwng Saesneg yng Nghymru gan ddechrau ar y gwaith yn yr hydref.

Fe'ch gwahoddir i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Dyma gylch gorchwyl yr adolygiad:

> Adolygu (i) cyfraniad llyfrau ac ysgrifennu cyfrwng Saesneg yng Nghymru at ddiwylliant Cymru; (ii) y dulliau o gefnogi llenorion yng Nghymru, gan gynnwys dramodwyr ac awduron sgriptiau; (iii) y dulliau cefnogi ar gyfer cynhyrchu a marchnata ysgrifennu newydd, gan gynnwys cefnogaeth y sector preifat; a [(iv) dulliau o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o lenyddiaeth a llenorion cyfrwng Saesneg yng Nghymru].

Byddai'n help pe bae'ch sylwadau'n ymdrin â'r pedwar prif faes uchod. Byddai hefyd yn help pe gallech fynd i'r afael â'r pwyntiau canlynol:

- y rhwystrau a'r cyfleoedd sydd i'w cael ar hyn o bryd;
- y cysylltiadau â sectorau eraill, megis addysg a thwristiaeth;
- rôl y sefydliadau perthnasol, gan gynnwys y sectorau gwirfoddol a phreifat;
- a ddylid rhoi blaenoriaeth i ysgrifennu newydd neu i'r 'clasuron'
- beth yw'r ffordd orau o reoli'r gefnogaeth i awduron sy'n ysgrifennu 'clasuron' cyfrwng Saesneg Cymreig

Anfonwch eich sylwadau i'r cyfeiriad uchod erbyn dydd Gwener 29 Awst 2003.

Yn gywir

ROSEMARY BUTLER
CADEIRYDD Y PWYLLGOR

Anfonwch eich sylwadau at:

Clerc y Pwyllgor,
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon,
Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau,
Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
CAERDYDD

Dyddiad cau: Dydd Gwener, 29 Awst 2003.

Cyhoeddi Mae'n bosibl y caiff y cyhoedd weld eich sylwadau. Os nad ydych am i ni gyhoeddi'ch sylwadau, a wnewch chi nodi hynny'n glir yn eich ymateb.